Red Meat Development Programme

Managing red clover through the autumn and winter

Red clover is a very productive, palatable, high protein crop. Silage from red clover and grass/red clover swards is a high quality feed, which can cut nitrogen fertiliser costs, improve soil structure and provide quality aftermaths for finishing lambs. It is normally grown in short term leys, typically lasting two to four years.

The Benefits of Good Autumn Management of Clover

Good autumn management will:

- improve persistence over the winter;
- help clover plants develop a degree of cold hardiness;
- provide energy for good spring re-growth and high yields;
- maximise the life of red clover, improving the financial return from your leys and livestock.

Good red clover management comes from understanding the way it grows. Unlike white clover it has an upright growth form and a strong deep tap root. The 'power house' of the plant is the crown which is found above the ground at the base of the stem and acts as the nutrient store. Caring for the crown in the autumn by encouraging it to build up its nutrient store is crucial to the survival of red clover plants over the winter.

Guidelines for Good Autumn Management of Red Clover

- Match the livestock to field conditions. Sheep can apply considerable grazing pressure - they selectively graze the red clover. Cattle, although less selective, can damage the crown more easily by their weight.
- Leave 7-8 cm of aftermath after silage cuts.
- Allow at least 28 days before grazing silage aftermaths; the leaf area will then increase and make energy that is stored in the crown.
- Graze rotationally, with intervals of over 28 days, removing livestock when clover height drops to 6cm.
- Avoid any grazing in wet weather; reducing the risk of direct damage to the crown through poaching/trampling and indirect damage from soil compaction.
- Do not drive vehicles across clover rich swards -use tracks and farm roads.
- When re-seeding, choose late flowering varieties which are more persistent under grazing conditions and produce more buds from the plant crown.

Management Guidelines for Livestock on Red Clover in the Autumn

- Do not feed breeding ewes on clover leys/silage for six weeks before and after mating. Red clover contains oestrogens that can affect ovulation rates.
- To avoid bloat in lambs on red clover aftermaths introduce stock slowly, ensuring they are not hungry. Also offer dry fibrous feeds and salt licks.
- Check stock regularly.

The Red Meat Development Programme is delivered by Hybu Cig Cymru on behalf of Farming Connect.

Further information is available from the Red Meat Development Programme, ring 01970 625050 or visit www.hccmpw.org.uk

February 2011

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Rhaglen Datblygu Cig Coch

Rheoli meillion coch drwy'r hydref a'r gaeaf

Mae meillion coch yn gnwd sy'n gynhyrchiol a blasus iawn ac mae iddo gyfran uchel o brotein. Mae silwair o dir glas meillion coch a glaswellt/meillion coch yn borthiant o ansawdd uchel a all leihau costau gwrtaith nitrogen, ynghyd â gwella ffurfiant y pridd a darparu adladd o ansawdd ar gyfer pesgi ŵyn. Caiff ei dyfu fel arfer ar dir glas byrdymor, sy'n para am rhwng dwy a phedair blynedd.

Manteision Rheoli Meillion yn Dda yn yr Hydref.

Bydd rheolaeth dda yn yr hydref yn:

- helpu parhad dros y gaeaf;
- helpu planhigion meillion i wrthsefyll oerfel;
- darparu egni ar gyfer aildyfiant da yn y gwanwyn a chnydau da;
- gwella hirhoedledd meillion coch, a gwella enillion ariannol o'ch tir glas a da byw.

Er mwyn rheoli meillion coch yn dda rhaid deall sut maen nhw'n tyfu. Yn wahanol i feillion gwyn, maen nhw'n tyfu'n syth i fyny ac mae ganddyn nhw brif wreiddyn dwfn a chryf. 'Pwerdy' y planhigyn yw'r tyfbwynt – sydd uwchlaw'r ddaear ac ar waelod y coesyn ac sy'n storio maetholion. Mae gofalu am y tyfbwynt yn yr hydref, wrth ei annog i storio rhagor o faetholion, yn hollbwysig i oroesiad planhigion meillion coch dros y gaeaf.

Canllawiau ar gyfer Rheoli Meillion Coch yn Dda yn yr Hydref

- Rhowch dda byw mewn caeau yn unol â chyflwr y caeau. Gall defaid, sy'n ddewisol wrth bori'r meillion coch, osod cryn bwysau ar y pori. Er bod gwartheg yn llai dewisol, maen nhw'n fwy tebygol o wneud difrod i'r tyfbwynt â'u pwysau corfforol.
- Gadewch 7-8 cm o adladd ar ôl torri silwair.
- Arhoswch o leiaf 28 diwrnod cyn pori adladd silwair; bydd arwynebedd y dail wedyn yn cynyddu ac yn creu egni sy'n cael ei storio yn y tyfbwynt.
- Porwch mewn cylchdro – ysbeidiau o dros 28 diwrnod, a symud y da byw pan fo uchder y meillion yn gostwng i 6cm.
- Peidiwch â phori mewn tywydd gwlyb; osgowch ddifrod uniongyrchol i'r tyfbwynt trwy sathru a difrod anuniongyrchol o bridd yn cael ei gywasgu.
- Peidiwch â gyrru cerbydau ar draws tir glas â chyfran uchel o feillion – defnyddiwch draciau a heolydd fferm.
- Wrth ail-hau, dewiswch rywogaethau sy'n blodeuo'n hwyr, sy'n fwy parhaus wrth gael eu pori ac sy'n cynhyrchu mwy o flagur o dyfbwynt y planhigyn.

Canllawiau ar gyfer Rheoli Da Byw ar Feillion Coch yn yr Hydref

- Peidiwch â bwydo mamogiaid bridio ar dir glas meillion/silwair am chwe wythnos cyn ac ar ôl cael hwrdd. Mae meillion coch yn cynnwys oestrogenau a all amharu ar gyfraddau ofylu.
- Er mwyn osgoi clwy'r boten mewn ŵyn ar adladd meillion coch, cyflwynwch yr anifeiliaid yn araf a gwnewch yn siŵr nad ydyn nhw'n newynog. Hefyd, cynigiwch fwydydd ffibrog a llyfiadau halen.
- Archwiliwch eich anifeiliaid yn rheolaidd.

Mae'r Rhaglen Datblygu Cig Coch yn cael ei ddarparu gan Hybu Cig Cymru ar ran Cyswllt Ffermio.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Rhaglen Datblygu Cig Coch, ffoniwch 01970 625050 neu ewch i www.hccmpw.org.uk

Chwefror 2011

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government